# Cylch Gorchwyl
## Y Pwyllgor Cynnwys

Cymeradwywyd: Mawrth 2024 (Adolygwyd: Mawrth 2024; Adolygiad nesaf: Mawrth 2026)

**Pwrpas**

Mae'r Pwyllgor Cynnwys yn gyfrifol am oruchwylio strategaeth a pherfformiad cynnwys a gwasanaethau S4C, er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y gynulleidfa.

**Aelodaeth a Phresenoldeb Eraill**

Aelodau (5 aelod)

- Aelod Anweithredol, o blith aelodau'r Bwrdd (i gadeirio)
- 2 Aelod Anweithredol
- Y Prif Weithredwr
- Y Prif Swyddog Cynnwys

Cworwm: 3 aelod, gydag o leiaf dau Aelod Anweithredol yn bresennol.

Penodir aelodau'r Pwyllgor gan y Bwrdd, yn unol â'r aelodaeth uchod.

Gellir cyfethol aelodau anweithredol nad ydynt yn gwasanaethu ar y Bwrdd lle bod hynny'n ddymunol er mwyn sicrhau cydbwysedd sgiliau addas ymhlith aelodaeth y Pwyllgor.

Mynychwyr nad ydynt yn aelodau

- Y Cyfarwyddwr Strategaeth Cynnwys a Chyhoeddi
- Rheolwr Gweithrediadau Cynnwys
- Y Pennaeth Cynllunio a Rheoli Cynnwys
- Ysgrifennydd y Bwrdd

Gall Cadeirydd y Bwrdd fynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor lle nad ydyw wedi ei benodi'n aelod gan y Bwrdd. Mewn amgylchiadau o'r fath, ni fydd yn cael ei ystyried yn aelod o'r Pwyllgor o ran cwrdd â'r cworwm, na chwaith â phleidlais.

Ar gais yr Ysgrifennydd, gall Cadeirydd y Pwyllgor ganiatáu i aelodau staff S4C ac unrhyw berson arall fynychu cyfarfodydd o'r Bwrdd fel bo'n briodol.

**Cylch Gorchwyl**

1. Craffu ar y materion canlynol, a chytuno ar argymhelliad / argymhellion i'r Bwrdd fel bo'n briodol:
   i. Datblygiad Strategaeth Gynnwys S4C a'r mesuryddion perthnasol, ac adolygiad y Strategaeth yn ôl yr angen;
   ii. Datblygiad Datganiad Polisi Rhaglenni Blynyddol S4C;
   iii. Gwerthusiad o berfformiad S4C yn erbyn y Datganiad Polisi Rhaglenni ar gyfer y flwyddyn flaenorol;
   iv. Cynllun Rhaglenni Blynyddol y BBC (yn unol ag Adran 58, Deddf Darlledu 1990);
   v. Adroddiad cyffredinol ar gynnwys S4C ar gyfer y flwyddyn flaenorol (i'w gyflwyno i Ofcom);
   vi. Datblygiad y Polisi ar Ddarllediadau Gwleidyddol, ac adolygiad y Polisi yn ôl yr angen;
   vii. Y Canllawiau Iaith Cynnwys S4C, ac unrhyw ddiwygiadau i'r Canllawiau hynny;
   viii. Diwygiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor (fel arfer yn dilyn gwerthusiad blynyddol o'i berfformiad ei hun).

2. Derbyn adroddiadau er gwybodaeth ar y materion canlynol, a chynghori'r Bwrdd a / neu'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli fel bo'n briodol:
   i. Perfformiad yn erbyn y Strategaeth Gynnwys, gan gyfeirio at y mesuryddion perthnasol a gytunwyd arnynt;
   ii. Cynlluniau cynnwys a chyhoeddi tymor byr a chanolig, a'r mesuryddion arfaethedig;
   iii. Gwerthuso ansawdd a llwyddiant cynnwys diweddar (a'r trefniadau cyhoeddi) yn erbyn y mesuryddion perthnasol a gytunwyd arnynt;
   iv. Adroddiadau yn dilyn digwyddiadau a drefnir gan y Bwrdd i ganfod barn ar wasanaethau S4C;
   v. Adroddiadau ar berfformiad cyffredinol cynnwys a gwasanaethau S4C, gan gynnwys gwaith ymchwil gyda phaneli ymateb a ffynonellau data eraill perthnasol;
   vi. Diwygiadau i God Ymarfer Comisiynu S4C;
   vii. Adolygu'r ystod ac amrywiaeth o gynnwys a ddarperir gan S4C yn gyson yng ngoleuni tueddiadau newydd, cyfleoedd newydd a newidiadau yn y galw am ein gwasanaethau.

**Hawliau'r Pwyllgor**

Gall y Pwyllgor:

- ymchwilio i unrhyw weithgaredd o fewn ei gylch gorchwyl;
- gomisiynu cyngor arbenigol neu ymchwil at ddiben y Pwyllgor yn ôl yr angen (trwy'r Ysgrifennydd); a
- geisio unrhyw wybodaeth sydd ei hangen gan unrhyw aelod o'r staff, a chyfarwyddir pob aelod o'r staff i gydweithredu ag unrhyw gais a wneir gan y Pwyllgor.

Er y gall y Cadeirydd gynnig arweiniad a chynghori ar y mathau o faterion y dylid eu cyflwyno'n ffurfiol i'r Pwyllgor, ynghyd â'r amser gorau i wneud hynny, a natur y wybodaeth sy'n briodol i'w chyflwyno i'r Pwyllgor, ni all y Cadeirydd gymryd unrhyw benderfyniadau ffurfiol ar ran y Pwyllgor oni bai bod y Pwyllgor wedi cytuno i ddirprwyo'r penderfyniad iddynt o flaen llaw.

**Trefniadau Cyfarfodydd**
Cynhelir y cyfarfodydd o leiaf tair gwaith y flwyddyn, ac yna yn ôl y galw (ar gais yr Ysgrifennydd, Cadeirydd y Pwyllgor, neu Gadeirydd y Bwrdd).

Gall y Pwyllgor ystyried a chymeradwyo materion drwy gyfathrebu y tu hwnt i gyfarfod ffurfiol, cyhyd â bod cofnod llawn o'r penderfyniad yn cael ei gadw a bod unrhyw benderfyniad a wneir y tu hwnt i gyfarfod ffurfiol yn cael ei adrodd i'r cyfarfod ffurfiol nesaf er mwyn iddo gael ei gofnodi.

Gofynnir i unigolion adael y cyfarfod pan fo gwrthdaro buddiannau yn codi (y Pwyllgor fydd â'r gair olaf mewn unrhyw achos o wrthdaro).

Bydd yr Ysgrifennydd, neu fel arall, berson cymwys a benodir gan yr Ysgrifennydd, yn cofnodi'r cyfarfod.

Bydd cofnodion a / neu adroddiadau gan y Pwyllgor yn cael eu nodi neu eu hystyried, fel y bo'n briodol, gan y Bwrdd cyn gynted â phosib yn dilyn cyfarfodydd y Pwyllgor.

Yn amodol ar y darpariaethau uchod, bydd gweithgareddau'r Pwyllgor yn cael eu rheoli gan Reolau Sefydlog y Bwrdd, i'r graddau eu bod yn berthnasol.